**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR - DYDD MERCHER, 21 RHAGFYR 2022 DYDD MERCHER, 21 RHAGFYR 2022**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors C. Smith (Aelod Llywyddol)
C. Bainton
P. Baldwin
S. Behr
D. Bevan
K. Chaplin
M. Cross
H. Cunningham
G. A. Davies
M. Day
S. Edmunds
J. Gardner
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
G. Humphreys
R. Leadbeater
E. Jones
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
D. Rowberry
T. Smith
G. Thomas
J. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
L. Winnett

WITH: Prif Weithredwr Interim
Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
Prif Swyddog Adnoddau
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Datblygu Sefydliadol
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau
Rheolwr Gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau
Arweinydd Proffesiynol Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Gymraeg
Swyddog y Wasg a Chyfathrebu

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:<br><br>Cynghorwyr D. Davies, J. Morgan, Y.H., D. Woods, Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiadau dilynol o fuddiant:<br><br>**Eitem Rhif 5: Cytundeb Tâl NJC Gwasanaethau Llywodraeth Leol 2022-2023 – Gwyliau Blynyddol Ychwanegol**<br><br>- Damien McCann – Prif Weithredwr Interim<br>- Lynn Phillips – Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg | |

| | | |
|---|---|---|
| | - Ellie Fry – Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol<br>- Rhian Hayden – Prif Swyddog Adnoddau<br>- Andrea Jones – Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol<br>- Andrea Prosser – Pennaeth Datblygu Sefydliadol<br>- Alison Hoskins – Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>- Clive Rogers – Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol<br>- Sarah King – Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau<br>- Andrew Parker – Rheolwr Gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau<br><br>Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Interim, yn dilyn cyngor gan y Swyddog Monitro er bod y swyddogion a enwir uchod wedi datgan buddiant yng nghyswllt yr eitem uchod, y caniateir iddynt aros yn y cyfarfod. Fodd bynnag, os bydd trafodaeth yn dilyn byddai'r swyddogion hynny a ddatganodd fuddiant yn gadael y cyfarfod ar y pwynt priodol, ac eithrio'r swyddog dilynol a fyddai'n aros yn y cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau ac egluro pwyntiau a godir:<br><br>- Andrea Prosser – Pennaeth Datblygu Sefydliadol | |
| **No. 4** | **<u>CYHOEDDIADAU'R AELOD LLYWYDDOL</u>**<br><br>**<u>Llongyfarchiadau</u>**<br><br>Cafodd llongyfarchiadau eu hymestyn i Gwendoline Moore a gafodd ei geni yn Nhredegar ond sy'n awr yn byw yn Awstralia ar ddathlu ei phen-blwydd yn 111 oed.<br><br>PENDERFYNWYD anfon llythyr priodol.<br><br>**<u>Cydymdeimlad</u>**<br><br>Mynegwyd cydymdeimlad gyda theulu'r cyn Gynghorydd Bwrdeistref Sirol a Maer Des Davies, a fu farw. Bu Des yn gynghorydd dros Ward Cwm am dros 35 mlynedd a gwelir ei golli yn fawr.<br><br>Dangosodd aelodau a swyddogion eu parch gyda munud o dawelwch.<br><br>Anfonwyd llythyr priodol at y teulu. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 5** | **<u>GWEITHIO NADOLIG A THÂL GWEITHLU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno i addasu tâl tu allan i ganllawiau NJC ar gyfer rhai oedd ar rota i weithio rhwng 25 Rhagfyr 2022 a 2 Ionawr 2023 ac a gaiff eu talu fel sy'n dilyn:<br><br>• 5 Rhagfyr 2022 – 2 Ionawr 2023, tâl i fod ar amser trebl heb unrhyw lwfans amser yn lle.<br>• 0 Rhagfyr (a gaiff ei gyfrif fel diwrnod gwaith arferol) i fod yn eithriad gyda thâl ar amser dwbl heb unrhyw lwfans amser yn lle. | |
| **No. 6** | **<u>CYTUNDEB TÂL NJC GWASANAETHAU LLYWODRAETH LEOL 2022-2023 – GWYLIAU BLYNYDDOL YCHWANEGOL</u>**<br><br>Fe wnaeth y swyddogion dilynol ddatgan buddiant yn yr eitem ond aros yn cyfarfod tra'i bod yn cale ei hystyried:<br><br>- Damien McCann – Prif Weithredwr Interim<br>- Lynn Phillips – Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg<br>- Ellie Fry – Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol<br>- Rhian Hayden – Prif Swyddog Adnoddau<br>- Andrea Jones – Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol<br>- Andrea Prosser – Pennaeth Datblygu Sefydliadol<br>- Alison Hoskins – Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>- Clive Rogers – Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol<br>- Sarah King – Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau<br>- Andrew Parker – Rheolwr Gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar gynnydd o un diwrnod o wyliau blynyddol (pro rata ar gyfer staff rhan-amser) ar gyfer \|Pif Swyddogion JNC a Phrif Weithredwr y Cyngor. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 7** | **STRATEGAETH HYRWYDDO'R GYMRAEG 2022/27**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Polisi a Phartneriaethau.<br><br>Nodwyd fod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol a Pherfformiad wedi cymeradwyo'r strategaeth yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2022.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradywo opsiwn 1, sef cymeradwyo Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022-2027. | |
| **No. 8** | **ASESIAD CRYNO O'R SEFYLLFA ARIANNOL 2023/24 I 2027/28**<br><br>Oherwydd yr angen i ystyried yr eitem ddilynol fel mater o frys, cadarnhaodd yr Aelod Llywyddol y gellid ystyried y mater dilynol dan ddarpariaethau Paragraff 4(b), Adran 100(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:<br><br>• cymeradwyo'r prif dybiaethau a ddefnyddiwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol (adran 5.1.2 yr adroddiad);<br>• nodi'r rhagolwg o'r bwlch cyllid am gyfnod y Strategaeth Ariannol Tymnor Canol (adran 5.1.3 yr adroddiad); a<br>• datblygiad parhaus Adolygiadau Busnes Strategol Pontio'r Bwlch. | |